

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

### Cynllun pensiwn i weithwyr Cyngor Sir Powys

*Mae'r daflen hon yn rhoi amlinelliad byr o fanteision bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Uned Bensiynau yn y cyfeiriad a ddangosir drosodd.*

- 1 -

#### Pwy all ymuno â'r Cynllun?

Mae gan bob gweithiwr o dan 75 oed sydd â chontract cyflogaeth am gyfnod o dri mis o leiaf, ac eithrio athrawon, hawl i ymuno â'r cynllun heb roi ystyriaeth i nifer yr oriau a weithiwyd. **Byddwch yn cael eich dwyn i mewn i'r cynllun pensiwn yn awtomatig oni bai eich bod yn dewis peidio ag ymuno**

- 2 -

#### Beth yw'r dewisiadau pensiwn sydd ar gael?

Mae tri dewis ar gael, y rhain yw:

- S2P** - Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth yw hwn (a adwaenid gynt fel 'SERPS') a bydd yn darparu pensiwn fel "ychwanegiad" at pensiwn sylfaenol y wladwriaeth. Drwy ddewis yr opsiwn hwn rydych yn dibynnu ar y Wladwriaeth i ddarparu eich budd-daliadau ymddeol.
- Cynllun Pensiwn Personol / Cynllun Pensiwn Rhanddeiliaid** - mae'r rhain ar gael yn awr yn ychwanegol at fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Chi sy'n dewis y cwmni i ddarparu'r polisi pensiwn ac yna rydych yn talu cyfraniadau yn uniongyrchol iddyn nhw.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** - Rydych yn talu cyfraniadau o'ch cyflog ac mae'r Cyngor yn cyfrannu hefyd. Mae'r cynllun yn darparu ystod eang o fudd-daliadau gwarantiedig.

- 3 -

#### Faint fydd hyn yn ei gostio?

Byddwch yn talu cyfraniadau o rhwng 5.5% a 7.5% o'ch cyflog gros, yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill. Mae pob cyfraniad yn cael rhyddhad treth llawn. Mae cyfraniad y cyflogwr i'r cynllun yn amrywio, gan sicrhau bod y gronfa yn ddigon i dalu'r lefel ofynnol o fudd-daliadau. Fel aelod o gynllun pensiwn a gontractiwyd allan rydych chi hefyd yn talu cyfraniadau yswiriant gwladol is.

- 4 -

#### Pa fuddion y mae'r cynllun yn eu darparu?

- Grant cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth o dair gwaith cyflog blynyddol.
- Pensiwn misol sy'n daladwy wrth ymddeol, a fydd yn cynyddu'n rheolaidd unwaith y bydd yn cael ei dalu.
- Opsiwn i gael cyfandaliad drwy roi'r gorau i rywfaint o'r pensiwn.
- Pensiwn i'ch priod, partner sifil neu gymar yr ydych yn cyd-fyw ag ef/hi yr ydych chi wedi ei (h)enwebu pe baech yn marw.
- Pensiwn i blant o dan 17 oed pe baech yn marw.
- Darpariaeth ar gyfer talu budd-daliadau yn gynnar os gorfodir chi i ymddeol oherwydd salwch.
- Talu budd-daliadau yn gynnar os caiff eich swydd ei dileu / os rhoddir hawl i chi ymddeol yn gynnar os ydych dros 55 oed (yn ôl disgrisiwn y cyflogwr)

- 5 -

#### Pa oed ydw i'n gymwys i ymddeol?

Gellir talu budd-daliadau pensiwn ar unwaith o 55 i 65 oed. Ond os ydych chi o dan 60 oed, rhaid i chi gael cytundeb y Cyngor Sir. Os ydych chi o dan 65 oed efallai y telir eich budd-daliadau ar gyfradd ostyngol.

-6-

## Alla' i drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol?

Gallwch drosglwyddo budd-daliadau a gadwyd gyda threfniant pensiwn arall i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cyn belled â bod y trefniant arall wedi'i gymeradwyo'n briodol. Os oes gennych ddiddordeb mewn trosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol, gofalgwch eich bod yn llenwi ffurflen datganiad am wasanaeth blaenorol o fewn 12 mis o ymuno.

**Sylwer:** - os ydych yn cyfrannu ar hyn o bryd at bolisi pensiwn personol a ddechreuodd cyn 6 Ebrill 2001, dylech ymgynghori â'r darparwr cyn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Efallai y bydd yn rhaid i chi yn ôl cyfraith treth roi'r gorau i dalu cyfraniadau at y polisi os byddwch yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

-7-

## Beth os byddaf yn gadael cyn yr oedran ymddeol?

### Gadael gyda llai na 3 mis o wasanaeth:

Byddwch yn derbyn ad-daliad o'r cyfraniadau rydych wedi eu talu, yn amodol ar y didyniadau priodol.

### Gadael gyda mwy na 3 mis o wasanaeth:

Bydd eich pensiwn yn cael ei gadw yn y gronfa tan yr oedran ymddeol, ac yn cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant. Gallwch ddewis trosglwyddo eich budd-daliadau i drefniant pensiwn arall unrhyw adeg.

- 8-

## Sut y caiff budd-daliadau eu cyfrifo?

Pennir swm y pensiwn sy'n daladwy o'r cynllun yn ôl (a) y cyfnod o amser rydych wedi talu i mewn i'r cynllun a (b) eich cyflog yn ystod y flwyddyn cyn i chi ymddeol. Y fformiwla sylfaenol yw y bydd gennych hawl i gael pensiwn o un rhan o drigain cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy. Gallwch gyfnewid rhywfaint o'ch pensiwn (ar gyfradd o £1: £12) am gyfandaliad di-dreth. Rhoddir mwy o fanylion am gyfrifo budd-daliadau yn "Arweiniad i'r cynllun pensiwn" sydd ar gael pan wnewch gais amdano.

- 9-

## Beth sydd angen i mi ei wneud yn awr?

Os ydych yn gyflogai newydd, byddwch yn cael eich dwyn i mewn i'r cynllun yn awtomatig, oni bai eich bod yn 75 oed neu'n hŷn, neu yn cael eich cyflogi ar gontract o lai na 3 mis o hyd. Os nad ydych am ymuno â'r cynllun, gofalgwch eich bod yn dychwelyd ffurflen eithrio o bensiwn (ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan) cyn gynted ag y bo modd ar ôl i chi ddechrau gweithio.

Os byddwch yn eithrio o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, dylech nodi ei fod yn ofynnol i'ch cyflogwr i gydymffurfio â'r darpariaethau cofrestru awtomatig dan y Ddeddf Pensiynau 2008. Ar brydiau, efallai byddwch yn cael eich **cofrestru'n awtomatig** gan eich cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ond mae'n rhaid i'ch cyflogwr rhoi gwybod i chi os fydd hyn yn digwydd. Bydd yr hawl gennych i eithrio o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol unwaith eto.

Os nad ydych yn gyflogai newydd a'ch bod yn dymuno ymuno â'r cynllun, llenwch ffurflen ymuno â phensiwn sy'n dangos eich bod yn dymuno ymuno (mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan).

**COFIWCH:** rhaid i chi lenwi ffurflen datganiad am wasanaeth blaenorol o fewn 12 mis o ymuno, fel y crybwyllwyd yng Nghwestiwn 6, os oes gennych ddiddordeb mewn trosglwyddo eich hawliau pensiwn blaenorol.

*Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y Cynllun, ewch i'n gwefan*

**[www.cronfapensiwnpowys.org](http://www.cronfapensiwnpowys.org)**

*neu cysylltwch â ni ar e-bost: [pensiynau@powys.gov.uk](mailto:pensiynau@powys.gov.uk)*

**Adain Pensiynau,  
Neuadd y Sir,  
Llandrindod,  
Powys  
LD1 5LG**



